



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd

TAFLEN GLAWR Y POLISI

Manylion Allweddol

TEITL POLISI	<i>Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd</i>
DYDDIAD CYMERADWYO	<i>Mai 2025</i>
CORFF CYMERADWYO	<i>Bwrdd Academaidd</i>
FERSIWN	<i>1.1</i>
DYDDIADAU YR ADOLYGIAD BLAENOROL	<i>Medi 2020</i>
DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF	<i>Mawrth 2027</i>
CANLYNIAD ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB	<i>* Dim newid mawr</i>
POLISIŌAU / GWEITHDREFNAU / CANLLAWIAU CYSYLLTIEDIG	<i>Strategaeth 2030 Cynllun Rheoli Carbon 2024 – 2030 Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd Targedau cynaliadwyedd a Rheoli Carbon Polisi Teithio a Threuliau Busnes Polisi Bancio a Buddsoddi Moesegol Polisi Gyrfaoedd Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol Polisi Masnach Deg Polisi Caffael Cynaliadwy Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd Polisi Bwyd Cynaliadwy Polisi Bwyd Môr Cynaliadwy Polisi Cysur Thermol Polisi Bioamrywiaeth Polisi Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy Polisi Rheoli Gwastraff Polisi Rheoli Dŵr Cynllun Teithio</i>
DYDDIAD GWEITHREDU	<i>Mawrth 2025</i>
PERCHENNOG Y POLISI (TEITL SWYDD)	<i>Rheolwr Ymgysylltu Cynaliadwyedd</i>
UNED / GWASANAETH	<i>Yr Amgylchedd, Ystadau a Chynaliadwyedd</i>

E-BOST CYSWLLT	<i>sustainability@cardiffmet.ac.uk</i>
-----------------------	--

Rheoli Fersiynau

FERSIWN	DYDDIAD	RHESWM DROS NEWID
<i>1.0</i>	<i>Medi 2020</i>	<i>Fersiwn cyntaf</i>
<i>1.1</i>	<i>Mawrth 2025</i>	<i>Adolygu a chynnwys Nodau Datblygu Cynaliadwy</i>

Hyb Polisi

I gael rhagor o wybodaeth am bolisiau:

- 1 Gallwch fynd i dudalennau'r Ysgrifenyddiaeth ar InSite yn <https://outlookuwicac.sharepoint.com/sites/Secretariat>;
- 2 Gallwch fynd i'r Hyb Polisi yn cardiffmet.ac.uk/about/policyhub; neu
- 3 Cysylltwch â policies@cardiffmet.ac.uk.

Cynnwys

Manylion Allweddol.....	1
Rheoli Fersiynau	2
Hyb Polisi	2
1 Rhagymadrodd	4
2 Amcanion Ymgysylltu â Chynaliadwyedd	5
3 Cyfathrebu Cynaliadwyedd.....	5
4 Cyfleoedd Ymgysylltu â Chynaliadwyedd	6
5 Rolau a Chyfrifoldebau	6
6 Polisiâu a Gweithdrefnau Cysylltiedig.....	7
7 Adolygu a Chymeradwyo	8
Atodiad 1 Amcanion a Thargedau	8
Atodiad 2 Perfformiad gwaelodlin.....	8

Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd

1 Rhagymadrodd

1.1 Pwrpas

Mae ein Strategaeth Gynaliadwyedd yn ceisio:

'Datblygu diwylliant o stiwardiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff, myfyrwyr, ymwelwyr a'r gymuned leol i gefnogi newid ymddygiad cadarnhaol.'

1.2 Cwmpas

Mae'r Brifysgol yn trefnu ei gwelliant parhaus trwy System Reoli Amgylcheddol (EMS), a chaiff perfformiad ei fesur yn ffurfiol yn erbyn gofynion ISO 14001.

Mae'r Polisi hwn yn cefnogi niferoedd Nodau Datblygu Cynaliadwy; 2,3,4,6,7,11,12 a 13



1.3 Diffiniadau

- 1.3.1 **ISO 14001** Mae gweithgareddau'r Brifysgol yn cael effaith ar yr amgylchedd, ac rydym wedi ymrwmo i wella ein System Rheoli Amgylcheddol (SRhA) yn barhaus ac i ragori ar ofynion ISO 14001. Cefnogir hyn gan gyhoeddiad ac adrodd ar amcanion clyfar a blaenoriaethau i gyflawni'r SRhA, y Strategaeth Gynaliadwyedd a'r Cynllun Rheoli Carbon gyda pholisïau thema cynaliadwyedd.
- 1.3.2 **Nodau Datblygu Cynaliadwy** - Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) yn set o 17 nod a sefydlwyd yn 2015 gan y Cenhedloedd Unedig (CU). Bwriad y nodau yw creu byd mwy cynaliadwy a theg drwy fynd i'r afael â heriau byd-eang.
- 1.3.3 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gyfraith sy'n anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Pwrpas y ddeddf yw sicrhau bod gweithredoedd yn diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

2 Amcanion Ymgysylltu â Chynaliadwyedd

2.1 Hysbysu

Byddwn yn hysbysu ein campws a chymunedau lleol am uchelgais, gweithgareddau, heriau a chyflawniadau cynaliadwyedd y Brifysgol. Byddwn yn cefnogi ein negeseuon gyda gwybodaeth glir yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn annog trafodaeth a dadl i alluogi ein cymunedau i rannu ein nodau cynaliadwyedd. Byddwn yn darparu diweddariadau clir a rheolaidd ar yr amrywiaeth lawn o gamau gweithredu a chyfleoedd cynaliadwyedd ar draws y Brifysgol.

2.2 Cynyddu ymgysylltiad

Rydym yn deall pwysigrwydd cynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac felly byddwn yn chwilio am ddulliau newydd ac amrywiol i'r Brifysgol a'n cymunedau lleol ymgysylltu â, a chyfrannu at ddatblygiad ein blaenoriaethau cynaliadwyedd.

2.3 Ysbrydoli

Grymuso cynaliadwyedd: Rydym am i'n myfyrwyr, staff a'r gymuned leol arwain ac ysbrydoli newid cadarnhaol yn y dyfodol. Bydd ein gwaith yn rhoi cyfleoedd i'n cymunedau gael profiad a chymorth ymarferol wrth roi eu syniadau ar waith: o newidiadau syml i ffordd o fyw ac o fewn cartrefi i brosiectau cymunedol cychwynnol.

3 Cyfathrebu Cynaliadwyedd

Byddwn yn: -

- 3.1 Sicrhau negeseuon clir a chryno sy'n briodol i'r gynulleidfa ar gynaliadwyedd trwy InSite/MetCanolog/ Teledu / cyfryngau cymdeithasol
- 3.2 Cyfathrebu llwyddiant ein gweithredoedd yn agored ac yn dryloyw /InSite/MetCanolog / Gwefan y Brifysgol / cyfryngau cymdeithasol
- 3.3 Cryfhau ac ymestyn partneriaethau strategol allanol perthnasol i wella dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn ein myfyrwyr, staff a chymunedau allanol Cadwch Gymru'n Daclus; Caffi Trwsio Cymru /Strategaeth Undeb y Myfyrwyr
- 3.4 Grymuso unigolion a grwpiau i hyrwyddo cynaliadwyedd o fewn a thu allan i'r sefydliad trwy sesiynau Sefydlu (e-fodiwl gorfodol ar gyfer pob dechreuwr newydd) / Datblygu staff / Marchnadoedd Buddiannau- sioeau teithiol / Diwrnodau Cymunedol / Gweithdai Gwyrdd / Rhaglen Bywyd Preswyl / Caffis Trwsio / Canolfan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer y gymuned / Sefydliad ail-lenwi / Strategaeth Undeb y Myfyrwyr / Prosiectau Byd Go lawn / Lleoliadau Gwaith yn y Tîm Cynaliadwyedd/Interniaid sy'n Fyfyrwyr / Hyfforddiant Llythrennedd Carbon / Ymchwil Cynaliadwyedd / modiwl Nodau Datblygu Cynaliadwy / Modiwl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 3.5 Gweithio gyda phartneriaid i gynnig rhaglen o weithgareddau arloesol sy'n annog cynaliadwyedd trwy ganolfan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer y gymuned / Gwobr Met Caerdydd / Caffi Trwsio Cymru, sefydliad Ail-lenwi / Strategaeth Undeb y Myfyrwyr / cyfryngau cymdeithasol / llwyddiannau Gwobrau Allanol
- 3.6 Darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli a gweithgareddau allgyrsiol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd trwy brosiectau'r Byd Go Iawn/diwrnodau Cymunedol/Gwobr Met Caerdydd / Archwilwyr Mewnol Myfyrwyr / Datganiad EDGE / HEAR / Cardiff Digs – Hyrwyddwyr Amgylcheddol / Strategaeth Undeb y Myfyrwyr
- 3.7 Cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am ailgylchu ac ailddefnyddio ymhlith staff, myfyrwyr a'n cymunedau trwy Strategaeth Rheoli Gwastraff a Chynllunio / safle ailddefnyddio / Prynu a Gwerthu / Diwrnodau Cymunedol / Caffi Trwsio
- 3.8 Parhau i hyrwyddo dewisiadau eraill yn lle teithio mewn car, yn enwedig teithio mewn car i feddiannaeth sengl trwy Gynllun Teithio / Diwrnodau Cymunedol / Caffi Trwsio - Gwasanaethu Beic am Ddim / Mentrau ar y Campws

4 Cyfleoedd Ymgysylltu â Chynaliadwyedd

- 4.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod ymwybyddiaeth amgylcheddol fel agwedd allweddol yn ei System Rheolaeth Amgylcheddol, yn enwedig o ran y nifer fawr a'r trawsnewidiad blynyddol o fyfyrwyr, staff, ymwelwyr a chontractwyr ar y safle, gan gyflwyno cymysgedd heriol o gefndiroedd, diwylliannau a diddordebau.
- 4.2 Defnyddir gwahanol ddulliau er mwyn ymgysylltu â phawb i ddechrau, ond hefyd i gysylltu â'r bobl iawn ar yr amser cywir, er enghraifft Sefydlu Myfyrwyr, Wythnos Wyrdd, Ffair y Glas a'r modiwl e-ddysgu cynaliadwyedd ar gyfer sefydlu staff. Mae yna hefyd sesiwn gynefino gorfodol i fyfyrwyr Neuaddau i gyfleu gwybodaeth am ailgylchu a gwastraff ar y Campws. Mae pob Ysgol yn darparu cynnod sefydlu cynaliadwyedd i fyfyrwyr ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd.
- 4.3 Mae'r defnydd o byrth mewnol staff a myfyrwyr, posteri, e-byst, cyfryngau cymdeithasol ac arwyddion yn parhau i gadarnhau'r neges ac yn parhau i gyfathrebu digwyddiadau, mentrau a chyfleoedd gwirfoddoli trwy gydol y flwyddyn academiaidd.
- 4.4 Mae lleoliadau gwaith a chyfleoedd Myfyrwyr Intern ar gael gyda'r Tîm Cynaliadwyedd. E-bostiwch Sustainability@cardiffmet.ac.uk

5 Rolau a Chyfrifoldebau

5.1 Ymgynghoriad Cynaliadwyedd

Mae staff, myfyrwyr, ymwelwyr a'r gymuned leol yn cael cyfle i wneud gwahaniaeth gyda syniadau cynaliadwyedd. Croesewir pob syniad cynaliadwyedd, caiff y syniadau hyn eu cyflwyno a'u hystyried yn y Gweithgor Gweithredu Hinsawdd.

5.2 Grwpiau Ffocws

Mae'r broses ymgynghori ar bolisïau a strategaethau yn rhoi'r cyfle i staff, myfyrwyr, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill roi adborth naill ai'n bersonol neu ar-lein mewn grwpiau ffocws, yn ogystal â thrwy gydol y flwyddyn trwy e-bostio'r adran gynaliadwyedd. Cyflwynir yr adborth a dderbynnir i'w ystyried yn ffurfiol trwy'r Gweithgor Gweithredu Hinsawdd. Mae'r adborth hwn yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r holl bolisïau a strategaethau cynaliadwyedd.

5.3 Sut i gymryd rhan

Adolygwch ein [gwefan](#). Cysylltwch â Sustainability@cardiffmet.ac.uk

6 Polisiâu a Gweithdrefnau Cysylltiedig

6.1 Strategaethau

6.1.1 Strategaeth 2030

6.1.2 Strategaeth Cynaliadwyedd

6.1.3 Cynllun Rheoli Carbon 2024 – 2030

6.2 Polisiâu

6.2.1 Polisi Teithio a Threuliau Busnes

6.2.2 Buddsoddi Moesegol a Pholisi Bancio

6.2.3 Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol

6.2.4 Polisi Masnach Deg

6.2.5 Polisi Bwyd Cynaliadwy

6.2.6 Polisi Caffael Cynaliadwy

6.2.7 Polisi Bwyd Môr Cynaliadwy

6.2.8 Polisi Cysur Thermol

6.2.8 Polisi Rheoli Gwastraff

6.2.9 Polisi Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy

6.2.10 Polisi Rheoli Dŵr

6.2.11 Polisi Bioamrywiaeth

6.2.12 Cynllun Teithio

7 Adolygu a Chymeradwyo

7.1 Mae agwedd allweddol yn ein System Rheoli Amgylcheddol, sef Ymwybyddiaeth Amgylcheddol, yn cynnwys targedau ac amcanion penodol ar gyfer gwelliant parhaus. Adroddir ar adnoddau, cyllideb a chynnydd i'r Gweithgor Gweithredu Newid yr Hinsawdd.

Atodiadau

Atodiad 1 Amcanion a Thargedau

Maes Effaith	Amcanion	Targedau	Dangosyddion / Mesurau	Cyfrifoldeb
Ymwybyddiaeth Amgylcheddol	Cynyddu gweithgareddau ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd, Campws ac o fewn y Gymuned	1) Codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd ymhlith staff, myfyrwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned leol ym Met Caerdydd gyda digwyddiadau a chyfathrebu. 2) Cynnal ISO 14001: 2015. 3) Gwella statws yng Nghynghrair Werdd People and Planet.	1) Adrodd yn fisol ar y math o ddigwyddiadau, eu nifer a'u heffaith. 2) Cynnal gwelliant parhaus ag ISO 14001 a sicrhau dim anghydfurfiaeth. 3) Cyhoeddi safle'r gynghrair yn flynyddol	Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd

Atodiad 2 Perfformiad gwaelodlin

Gweithred	Gwaelodlin (2019)	Targed 2025	Targed 2026	Targed 2027
1 - Adrodd ar fath a nifer y digwyddiadau	6 x Gweithdai Gwyrdd,	10% ar y waelodlin, gwelliant ar	10% ar y waelodlin, gwelliant ar	10% ar y waelodlin, gwelliant ar

	6x Diwrnod Cymunedol Caffis Trwsio 12x 6 x Gwasanaethu Beic am Ddim Ewch i ddigwyddiadau Wythnos Wyrdd 4 x darlithoedd gwadd 3 x yn rownd derfynol y Gwobrau 2 x astudiaeth achos prosiect Byd Go lawn	nifer y digwyddiadau dros y 3 blynedd nesaf	nifer y digwyddiadau a nifer dros y 3 blynedd nesaf	nifer y digwyddiadau a nifer dros y 3 blynedd nesaf
2- Cynnal gwelliant parhaus ag ISO 14001 a sicrhau dim anghydfurfiaeth	Codwyd 2 fân ddiffyg cydymffurfio	Cydymffurfiaeth llawn	Cydymffurfiaeth llawn	Cydymffurfiaeth llawn
3 – Cadw safleo fewn y gynghrair People and Planet Green	Safle 68 ^{ain} yng nghynghrair 2019	I fod ymhlith y 10 uchaf yn y 3 blynedd nesaf)	I fod ymhlith y 10 uchaf yn y 3 blynedd nesaf)	I fod ymhlith y 10 uchaf yn y 3 blynedd nesaf)